

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWIYD AR NOS
FAWRTH 8FED O FAWRTH 2016 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R
GLOCH.

1 PRESENNOL: Y Cyngorwyr Mike Denman (Cadeirydd), Gwyn Howatson, Siân Davies, Medwyn Jones, Brynle Lloyd, Deryl Roberts, Ian Hession, Clwyd Thomas, Dewi Roberts, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

2. CADARNHAU COFNODION TACHWEDD 2015 Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 10fed o Dachwedd 2015 yn gywir a arwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Adran Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar sylwadau'r Cyngor Cymuned i'r Ymgynghoriad Canllawiau Cynllunio Atodol 0 Ynni Adnewyddadwy.

B. Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Sir Merfyn Parry ynglŷn ar ganlynol:-

1. Mae'r Cyngor Sir Ddinbych wedi gofyn i'r Cyfoeth Naturiol Cymru i edrych i mewn i'r tyfiant yn yr afon ym Mhont Telpyn yn Rhewl.

2. Mi fydd angen cadarnhad gan yr Adrannau'r Cyngor Sir os maent wedi ymchwil y canlynol:-

a. Llifogydd ar dywydd gwlyb ar ffordd Plas-y-Ward yn Rhewl.

b. Camfeydd ddim wedi ei osod ar y Llwybr Cyhoeddus Llwybr Clwyd/Clywedog rhwng Rhewl a Llanynys.

c. Gwaith ychwanegol sydd ei angen ar y gwrych yng nghae Rhyd-y-Cilgwyn yn Rhewl.

4. ADRODDIAD CYFARFOD Y CYNGOR YN HUFENFA LLANDYRNOG AR 12FED O IONAWR 2016.

Derbyniwyd adroddiad fod y cyfarfod yn Hufenfa Llandyrnog yn werthfawr iawn a diolchwyd i'r Cyngorydd Merfyn Parry am drefnu'r cyfarfod. Mae Cyngorydd Parry eisoes wedi diolch dros y Cyngor Cymuned i'r Cwmni Arla am y croeso a'r wybodaeth a chafwyd yr aelodau'r Cyngor Cymuned.

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £12,051.53.

B. Derbyniwyd rhan olaf o'r precept am y flwyddyn 2015/16 - £2,696.00.

C. Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn Precept o £7,968.00 am y flwyddyn ariannol 2016/17 sydd ar gyfartaledd o £24.00 ar yr 332 preswyl yn y gymuned.

D. Taliadau:-

1. Pwyllgor Pafiliwn y Rhewl - Rhodd tuag at gostau'r yswiriant - £1,401.54.

2. Cyngor Sir Ddinbych am ddau arwydd pentref Llanynys - £1,044.00.

3. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2016 - £300.00.

4. PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2016 - £75.00.

5. Chostau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2016 - £775.44.

6. Un Llais Cymru – Tal Aelodaeth 2016/17 - £89.00.

7. Pwyllgor Pafiliwn y Rhewl - cais tuag at gostau'r estyniad i'r Pafiliwn - £1,000.00.

8. Clwb Bowlio Rhewl am gyfraniad tuag at gostau'r ail fat bowlio. Penderfynwyd yr aelodau i'r Cyngor Cymuned prynu'r mat i'r gymuned - £1,200.10 (yn cynnwys TAW).

Nid chymerodd y Cyngorwyr Mike Denman a Ian Hession rhan yn eitemau Pafiliwn y Rhewl a'r Cyngorydd Gwyn Howatson i'r eitem Clwb Bowlio Rhewl.

6. AROLWG CYFLOG Y CLERC AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2016/17.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr aelodau i godi'r cyflog y Clerc am y flwyddyn 2016/17 i £2,000.00.

7. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A Estyniad i sied amaethyddol yn Y Gables, Llandyrnog.

B. Estyniad i Brŷn Clwyd. Rhewl.

C. Estyniad i Glan Clywedog, Rhewl.

8. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth "Tower Mint Ltd." Yn cynnig gwerthu medal i ddathlu'r pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed. Penderfynwyd gofyn i Ysgol Rhewl i weld os maent yn fwriadau rhoi'r fedal i'r dis glybion cyn penderfynu'r cam nesaf.

B. Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Merfyn Parry ynglŷn ar ganlynol:-

1. Mae'r Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych bod rhaid i'r Cyngorau Cymunedol rhoi munudau dwyieithog ar y Wefan y Cyngorau.

2. Damweiniau moduron ar yr A525 yn Rhewl yn ddiweddar a gofynni i'r gostwng y cyflymdra i 30 filltir yr awr. Mae'r Adran Cludiant a Seilwaith wedi ymateb trwy gadarnhau ar ôl arolwg cyflymdra ar wybodaeth damweiniau gan yr Heddlu nid oedd yn bosib cwtogi'r cyflymdra i 30 filltir yr awr ar y A525 yn Rhewl.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. UNRHYW FATER ARALL.

A. Cytunodd y Cyngorydd Merfyn Parry cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn ar lifogydd ar y ffordd heibio Tan-yr-Accar yn Llanrhaeadr.

B. Adroddwyd y Cyngorydd Merfyn Parry fydd y ffordd heibio Bachymbyd Bach yn Rhewl yn cael wyneb newydd.

C. Cytunodd y Cyngorydd Merfyn Parry cysylltu ar Gyngor Sir ynglŷn ar ddatblygiad yng ngardd 4 Bro Clwyd, Rhewl.

D. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar dipio anghyfreithiol rhwng Tan-yr-Ywen a Pentor ym Montuchel.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 10fed o Fai 2016 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.